Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Woodfield Street, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 27 Tachwedd 2023

Dyddiad cyhoeddi: 27 Chwefror 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-628-5

© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 16

4. Y camau nesaf ........ 19

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 20

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 21

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Woodfield Street, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 27 Tachwedd 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 35 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd pump gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod y staff ym Mhractis Deintyddol Woodfield Street yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion pan fyddant yn ymweld â'r practis.

Nododd pob un o'r 35 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai rheolwr y practis holi'r bwrdd iechyd ynghylch defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu yn y practis
- Dylai'r practis ddarparu mwy o wybodaeth ddwyieithog i gleifion yn yr ardal aros.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar
- Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn, gan ddweud wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol.

Roedd yr ardaloedd cymunedol a chlinigol hefyd yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth bod polisïau a gweithdrefnau amrywiol ar waith i reoli heintiau yn y practis.

Gwelodd AGIC fod trefniadau da ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd y tîm deintyddol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis roi tystiolaeth o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod cynhyrchion gwynnu dannedd yn cael eu storio ar wahân i fwyd a diod y staff

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Posteri ar gefn y drws yn nhoiledau'r cleifion, yn nodi'r manylion cyswllt ar gyfer cymorth i ddioddefwyr, cymorth iechyd meddwl ac i roi gwybod am bryderon diogelu
- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Deintyddol Woodfield Street.

Roedd amrywiaeth o bolisïau ysgrifenedig ar waith yn y practis, a oedd ar gael i'r staff i'w cefnogi wrth eu gwaith. Roedd pob un o'r polisïau yn gyfredol ac roeddent yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o bolisïau ar gael yn hawdd i'r staff i'w helpu wrth eu gwaith.
- Roedd y staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Roedd pob un o'r 35 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ‘dda’ neu'n ‘dda iawn’.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Rwyf wedi bod yn dod yma ers mwy na 30 mlynedd. Dydw i erioed wedi cael unrhyw broblemau.”*

*“Mae'r practis deintyddol hwn yn gyfeillgar ac yn effeithlon.”*

### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**
Roedd pob un o'r 35 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da (33/35). Dewisodd un claf ‘ddim yn berthnasol’ a dewisodd un ateb beidio ag ateb cwestiwn hwn.

Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr fod y tîm deintyddol wedi holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. O'r 35 o ymatebwyr, roedd 30 yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylent ei wneud os bydd haint neu argyfwng, a gyda phwy y dylent gysylltu. Roedd un claf yn anghytuno â hyn, atebodd dau drwy nodi 'ddim yn berthnasol', a dewisodd y cleifion a oedd yn weddill beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Roedd enw'r practis i'w weld yn amlwg y tu allan i'r practis, ynghyd â gwybodaeth am oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng.

Roedd arwyddion ‘dim smygu’ i'w gweld yn glir yn y practis hefyd.

**Gofal Urddasol a Pharchus**

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau ar waith yn y practis er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion. Roedd drysau pob deintyddfa yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau gan roi digon o breifatrwydd ar gyfer sgyrsiau cyfrinachol. Fodd bynnag, yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwelsom nad oedd bleind na gwydr barugog yn y ddeintyddfa i fyny'r grisiau i atal pobl rhag gallu gweld i mewn o'r stryd. Ers ein hymweliad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod camau priodol wedi cael eu cymryd i atal pobl rhag gallu gweld i mewn o'r stryd, gan sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas y cleifion eu cynnal.

Dywedodd y staff wrthym y gellid defnyddio'r ystafell staff i gael sgyrsiau cyfrinachol pe byddai angen, neu un o'r ardaloedd aros os bydd un yn wag.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu.

Gwelwyd bod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn yr ardal aros.

### Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd y mwyafrif o'r unigolion a gwblhaodd yr holiadur fod digon o wybodaeth yn cael ei rhoi i'w helpu i ddeall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael (33/35). Dywedodd yr ymatebwyr hyn hefyd eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau/buddiannau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny. Yn y ddau achos, penderfynodd yr ymatebwyr a oedd yn weddill beidio ag ateb y cwestiynau hyn.

Dywedodd pob un o'r 35 o unigolion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

## Amserol

### Gofal Amserol

Dywedodd y staff wrthym, os bydd unrhyw oedi o ran apwyntiadau, bod hyn fel arfer yn digwydd ar y funud olaf, pan fydd y claf nesaf eisoes yn yr ardal aros. Byddai'r staff yn hysbysu'r cleifion ynghylch achosion o oedi yn bersonol, gan gynnig y cyfle i aildrefnu'r apwyntiad os bydd angen.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein. Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn neu yn bersonol yn y practis.

Gellid cael apwyntiadau brys dros y ffôn. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym fod slotiau penodol ar gael bob diwrnod i'w defnyddio ar gyfer apwyntiadau brys yn unig.

Dywedodd 29 o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd y chwe ymatebydd sy'n weddill eu bod yn teimlo ei bod yn 'eithaf hawdd' cael apwyntiad. At hynny, dywedodd 29 o'r cleifion y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Dywedodd y chwe ymatebydd sy'n weddill wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth hwn.

## Teg

**Cyfathrebu ac Iaith**
Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur mai Saesneg yw eu dewis iaith (34/35).

Er bod staff y dderbynfa wedi dweud wrthym y gallant ddweud ambell air yn Gymraeg, gwnaethom gadarnhau nad oedd unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn gweithio ym Mhractis Deintyddol Woodfield Street.

Dywedodd y staff wrthym nad ydynt yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu drwy'r bwrdd iechyd ar hyn o bryd.

**Rydym yn argymell y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ffyrdd o wella dulliau cyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu dewis iaith.**

Gwelsom ddarnau amrywiol o wybodaeth wedi'u harddangos yn ardal derbynfa'r practis, gan gynnwys taflen wybodaeth i gleifion, yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, a pholisi cwynion y practis. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog, ond heblaw am hon gwelsom fod prinder gwybodaeth ddwyieithog ar gael i'r cleifion.

**Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod mwy o wybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog yn y dyfodol.**

Cawsom wybod y gallai'r cleifion wneud cais am wybodaeth mewn fformatau eraill.

**Hawliau a Chydraddoldeb**
Roedd gan y practis bolisi cyfle cyfartal a pholisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar waith. Gwelsom dystiolaeth bod t staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Oherwydd cynllun yr adeilad, nid oedd y practis yn gallu cynnig mynediad i bobl anabl. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym y byddent yn cyfeirio unrhyw gleifion y mae angen mynediad o'r fath arnynt at bractisau deintyddol gerllaw.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli Risg**
Roedd yn amlwg fod y safle yn cael ei gynnal i safon uchel, yn fewnol ac yn allanol. Roedd gan y practis ardaloedd aros mawr ar y ddau lawr, a oedd yn addas ar gyfer nifer y deintyddfeydd. Roedd cyfleusterau newid a storio digonol hefyd ar gael i'r staff.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis deintyddol. Roedd yr holl unigolion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn teimlo bod y practis deintyddol yn 'lân iawn'.

Adolygodd AGIC gynllun parhad busnes a oedd ar waith ar gyfer y practis. Roedd y ddogfen hon yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod polisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr ar waith.

Rhoddodd y staff gopi i ni o asesiad risg diogelwch tân cyfredol ar gyfer y practis. Gwelsom fod cyfarpar diogelwch tân ar gael i'r staff ei ddefnyddio pe bai tân. Roedd contract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol ar waith. Wrth edrych ar hyfforddiant staff, gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff yn meddu ar hyfforddiant cyfredol ar ddiogelwch tân.

Roedd arwyddion clir ar gyfer allanfeydd tân, ac roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn ardal derbynfa'r practis.

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**
Gwelsom dystiolaeth bod polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

O'r holl gleifion a gwblhaodd holiaduron roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (46/49) yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn y practis.

Roedd yn amlwg bod trefniadau dihalogi priodol ar waith yn y practis. Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da a gwelsom fod yr offer wedi'i ddyddio a'i storio'n briodol.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfleusterau hylendid dwylo effeithiol ar waith a bod cyfarpar diogelu personol (PPE) hefyd ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio.

Wrth edrych ar hyfforddiant staff, gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwelsom fod yr oergell yn yr ystafell staff yn cael ei defnyddio i storio bwyd a diod y staff ynghyd â chynhyrchion gwynnu dannedd i'r cleifion. Gwnaethom godi hyn gydag uwch-aelod o'r staff ar unwaith a gytunodd i gael oergell arall cyn gynted â phosibl er mwyn cadw'r eitemau hyn ar wahân. **Rhaid i'r practis roi tystiolaeth y cafwyd oergell newydd neu unrhyw gamau eraill a gymerwyd i sicrhau bod cynhyrchion gwynnu dannedd yn cael eu storio ar wahân i fwyd a diod y staff.**

**Rheoli Meddyginiaethau**
Cadarnhaodd y staff na chaiff unrhyw feddyginiaethau eu storio yn y practis, heblaw am feddyginiaeth frys. Gwelsom fod gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith.

Gwnaethom edrych ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.

Roedd yr holl gyffuriau brys yn gyfredol; fodd bynnag, nid oedd masgiau ocsigen ar gael mewn meintiau 0, 1, 2 a 4. Gwnaethom siarad â'r staff am hyn a gwelsom dystiolaeth bod y meintiau perthnasol wedi cael eu harchebu yn ystod ein hymweliad. Ers ein harolygiad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod y masgiau hyn wedi cael eu derbyn.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant CPR diweddaraf. Roedd pecyn cymorth cyntaf a thri swyddog cymorth cyntaf dynodedig ar gael yn y practis. Roedd yr holl swyddogion cymorth cyntaf wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf perthnasol.

**Diogelu Plant ac Oedolion**
Gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau diogelu'r practis. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion cyswllt lleol er mwyn rhoi gwybod am unrhyw bryderon.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac wedi cael y lefel briodol o hyfforddiant.

Yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwelsom boster ar gefn y drws yn y ddau doiled, yn nodi'r manylion cyswllt ar gyfer cymorth i ddioddefwyr, cymorth iechyd

meddwl ac i roi gwybod am bryderon diogelu. **Gwnaethom nodi hyn fel maes arfer da.**

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**
Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus ac roeddent wedi cael eu gorffen i safon dda.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf.

## Effeithiol

**Gofal Effeithiol**
Roedd trefniadau ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau.

**Cofnodion y Cleifion**
Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Fodd bynnag, nodwyd y bylchau canlynol:

- Nid yw profion sgrinio canser y geg yn cael eu cofnodi
- Nid yw cydsyniad yn cael ei gofnodi'n gyson
- Nid yw hanes cymdeithasol gan gynnwys y defnydd o alcohol yn cael ei gofnodi
- Nid yw dewis iaith yn cael ei gofnodi
- Nid yw asesiad risg yn seiliedig ar bydredd, perio a thraul dannedd yn cael ei gofnodi adeg pob cwrs o driniaeth ar hyn o bryd
- Nid yw cynlluniau triniaeth wedi'u hysgrifennu a'u llofnodi yn cael eu rhoi i gleifion fel sy'n ofynnol adeg pob cwrs o driniaeth ar hyn o bryd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y wybodaeth a restrir uchod ei chofnodi yng nghofnodion y cleifion.**

## Effeithlon

**Effeithlon**

Gwelsom fod y cyfleusterau yn briodol ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol a bod prosesau ar waith i weithredu'r practis yn effeithlon.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y cyfleusterau yn y practis yn addas iddynt gyflawni eu dyletswyddau a bod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Mae'r practis yn defnyddio system electronig effeithiol i atgyfeirio cleifion at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill pan fydd angen.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Gwelsom dystiolaeth bod strwythurau rheoli clir ar waith ym Mhractis Deintyddol Woodfield Street.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn yn ymrwymedig ac yn ymroddedig i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â'r rheolwr cofrestredig neu'r deintyddion arweiniol. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Roedd y staff y gwnaethom gwrdd â nhw yn ystod yr arolygiad yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod rhestr gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r staff. Roedd yr holl bolisïau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Roedd y dyddiadau arolygu'n cael eu cofnodi ar daflen gofnodi yn y ffolder polisïau.

Cawsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chawsom gadarnhad bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith hefyd. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

Roedd gan y practis ddatganiad cyfredol o ddiben a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, fel yr amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## Y Gweithlu

**Gweithlu Medrus a Galluog**
Adolygodd AGIC y polisïau a'r gweithdrefnau cyfredol sydd ar waith i gwmpasu'r broses o recriwtio, sefydlu a chadw cyflogeion.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau a phrosesau goruchwylio blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer y staff. Wrth edrych ar ffeiliau'r staff gwnaethom gadarnhau hefyd fod y staff wedi cael brechiadau Hepatitis B a bod gwiriadau cyfredol y

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith. Gwnaethom adolygu cofnodion hyfforddiant y staff hefyd a chadarnhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â'r hyfforddiant gorfodol.

Roedd polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar waith yn y practis.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**
Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer ceisio adborth gan gleifion. Roedd blwch sylwadau a chanmoliaeth yn ardal aros y practis a gallai'r cleifion hefyd roi adborth drwy dudalen Facebook y practis.

Roedd gweithdrefn gwyno'r practis i'w gweld yn glir yn ardal y dderbynfa. Roedd y ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, fel enw'r person a oedd y gyfrifol am ymdrin â chwynion yn y practis, amserlenni ar gyfer delio â chwynion a manylion cyswllt AGIC.

O blith y 35 o unigolion a gwblhaodd holiadur, dywedodd 28 wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth. Atebodd pum claf 'ddim yn gymwys' a phenderfynodd y ddau glaf sy'n weddill beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**
Roedd gan y practis systemau cyfathrebu addas ar waith i gefnogi'r broses o weithredu'r practis.

Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, gan sicrhau diogelwch data personol. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio'n electronig gan ddefnyddio systemau diogel wedi'u diogelu â chyfrinair.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

**Gweithgareddau Gwella Ansawdd**
Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis wedi cwblhau archwiliad o gardiau cofnodion ac archwiliad rhagnodi gwrthfiotigau CAPRO. Fodd bynnag, nid oedd archwiliad ar roi'r gorau i smygu wedi'i gwblhau eto.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad ar roi'r gorau i smygu cyn gynted â phosibl.**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y practis wedi rhoi unrhyw adnoddau datblygu tîm ar waith eto. Gwnaethom awgrymu efallai yr hoffai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau deintyddol Matrics Aeddfedrwydd Deoniaeth Deintyddol Cymru. Mae'r Matrics Aeddfedrwydd yn cynnig adnodd datblygu tîm practis deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arferion gorau, ansawdd a diogelwch, gofynion deddfwriaethol a sut mae'n gweithio fel tîm.

## Dull Systemau Cyfan

**Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**

Disgrifiodd rheolwr y practis y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau eraill.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio eDEN, system rheoli ansawdd ar-lein, i wirio metrigau'r GIG ac ansawdd y gwasanaeth.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Woodfield Street

## Dyddiad yr arolygiad: 27/11/2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Practis Deintyddol Woodfield Street**

**Dyddiad yr arolygiad: 27/11/2024**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dywedodd y staff nad ydynt yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu drwy'r bwrdd iechyd ar hyn o bryd.** | Dylai'r staff ymchwilio i hyn er mwyn gwella prosesau cyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu dewis iaith. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 13<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Ymchwilio i wasanaethau cyfieithu lleol/ar-lein a'u rhoi ar waith | Jenna Thomas | 1 mis |
| **Er bod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardal aros, gwnaethom sylwi nad oedd llawer o wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.** | Dylai'r uwch-aelodau o staff ddarparu gwybodaeth ddwyieithog i gleifion yn y dyfodol | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 13<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Cyfieithu mwy o wybodaeth i'r Gymraeg | J Rice | 1 mis |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Roedd yr oergell yn yr ystafell staff yn cael ei defnyddio i storio bwyd a diod ynghyd â chynhyrchion gwynnu dannedd i'r cleifion.** | Dylai'r practis roi tystiolaeth y cafwyd oergell newydd neu unrhyw gamau eraill a gymerwyd i sicrhau bod cynhyrchion gwynnu dannedd yn cael eu storio ar wahân i fwyd a diod y staff. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 19 | Roedd gan aelod o'r staff oergell nad oedd yn cael ei defnyddio gartref. Daeth â'r oergell i mewn ac mae bellach yn cael ei defnyddio ar gyfer bwyd | J Rice/ G Pearson | Wedi'i gwblhau |
| Nodwyd y materion canlynol gennym mewn perthynas â chofnodion y cleifion:<br>• Nid yw profion sgrinio canser y geg yn cael eu cofnodi.<br>• Nid yw cydsyniad yn cael ei gofnodi'n gyson.<br>• Nid yw hanes cymdeithasol gan gynnwys y defnydd o alcohol yn cael ei gofnodi.<br>• Nid yw dewis iaith yn cael ei gofnodi. | Dylai uwch-aelodau'r staff sicrhau bod y manylion hyn yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion yn y dyfodol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 20 | Mae'r deintyddion a phob aelod o'r staff bellach yn ymwybodol o'r newidiadau i'r hyn a nodir yn ysgrifenedig. Mae hyn wedi'i roi ar waith a chaiff ei ddefnyddio yn y dyfodol | J Rice/ G Pearson | Wedi'i gwblhau ac yn barhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • Nid yw asesiad risg yn seiliedig ar bydredd, perio a thraul dannedd yn cael ei gofnodi adeg pob cwrs o driniaeth ar hyn o bryd.<br>• Nid yw cynlluniau triniaeth wedi'u hysgrifennu a'u llofnodi yn cael eu rhoi i gleifion fel sy'n ofynnol adeg pob cwrs o driniaeth ar hyn o bryd. | | | | | |
| Nid oedd y practis wedi cwblhau archwiliad ar roi'r gorau i smygu eto. | Dylai uwch-aelodau'r staff gynnal archwiliadau ar roi'r gorau i smygu cyn gynted â phosibl. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16 | Mae archwiliad AaGIC ar roi'r gorau i smygu wedi'i sefydlu ac mae'n mynd rhagddo | J Rice/ G Pearson | Mae'n barhaus, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn dechrau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | mis Mawrth 2024 |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): James Rice**

**Teitl swydd: Deintydd Partner**

**Dyddiad: 1/2/24**